
Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

# Bydwraig yn y dyfodol: Safonau ar gyfer rhaglenni bydwreigiaeth cyn cofrestru

DRAFFT – Ionawr 2019



www.nmc.org.uk

# Cynnwys


Ynglŷn â'r safonau hyn 2

Cyflwyniad 3

Fframwaith deddfwriaethol 5

Safonau ar gyfer rhaglenni bydwreigiaeth cyn cofrestru 5

Y fydwraig arweiniol ar gyfer addysg 6

Taith y myfyriwr 7

1. Dethol, derbyn a dilyniant 8

2. Cwricwlwm 10

3. Dysgu ymarfer 11

4. Goruchwylio ac asesu 12

5. Cymhwyster i'w ddyfarnu 13

Atodiad 1:
Cyfarwyddeb 2005/36/EC Senedd Ewrop a'r cyngor ar gydnabod cymwysterau proffesiynol (fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb 2013/55/EU) 14

Rhestr Termau 21


DRAFT FOR CONSULTATION

# Ynglŷn â'r safonau hyn

Mae Gwireddu proffesiynoldeb: Safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant yn cynnwys y Fframwaith safonau ar gyfer addysg nyrsio a bydwreigiaeth, Safonau ar gyfer goruchwylio ac asesu myfyrwyr, a safonau rhaglenni sy'n benodol i bob rhaglen gymeradwy.

Mae ein Safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant wedi'u cyflwyno mewn tair rhan:

Rhan 1: Fframwaith safonau ar gyfer addysg nyrsio a bydwreigiaeth

Rhan 2: Safonau ar gyfer goruchwylio ac asesu myfyrwyr

Rhan 3: Y safonau rhaglenni sydd eisoes wedi'u cyhoeddi yw:

- Safonau ar gyfer rhaglenni nyrsio cyn cofrestru
- Safonau ar gyfer rhaglenni rhagnodi

Datblygwyd y safonau drafft canlynol yn unol â safonau rhaglenni eraill Rhan 3:

- Safonau ar gyfer rhaglenni bydwreigiaeth cyn cofrestru

Mae'r safonau drafft hyn yn helpu myfyrwyr bydwreigiaeth i gyrraedd safonau hyfedredd a deilliannau rhaglenni'r NMC. Rhaid i bob gweithiwr proffesiynol ym maes bydwreigiaeth ymarfer yn unol â gofynion y Cod, sef y safonau proffesiynol o ran ymarfer, gwerthoedd ac ymddygiad y mae disgwyl i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio eu dilyn.

DRAFT FOR CONSULTATION


# Cyflwyniad

Mae ein *Safonau ar gyfer rhaglenni bydwreigiaeth cyn cofrestru* yn nodi'r gofynion cyfreithiol, gan gynnwys gofynion mynediad a llwybrau mynediad, hyd y rhaglen, y cwricwlwm, dysgu ymarfer, dulliau goruchwylio ac asesu a gwybodaeth am y cymhwyster i'w ddyfarnu ar gyfer y rhaglen addysg bydwreigiaeth cyn cofrestru.

Rhaid i fydwragedd dan hyfforddiant gwblhau rhaglen cyn cofrestru a gymeradwywyd gan yr NMC yn llwyddiannus er mwyn cyrraedd y *Safonau hyfedredd ar gyfer bydwragedd* a bod yn gymwys i wneud cais i ymuno â chofrestr yr NMC.

Mae diogelwch y cyhoedd yn ganolog i'n safonau. Bydd myfyrwyr mewn cysylltiad â phobl drwy gydol eu haddysg ac mae'n bwysig eu bod yn dysgu mewn ffordd ddiogel ac effeithiol.

Dylid darllen y safonau hyn ar gyfer rhaglenni penodol ar y cyd â'r *Fframwaith safonau ar gyfer addysg nyrsio a bydwreigiaeth* a'r *Safonau ar gyfer goruchwylio ac asesu myfyrwyr* sy'n gymwys i'r holl raglenni addysg a gymeradwywyd gan yr NMC. Rhaid i sefydliadau addysg gydymffurfio â'r holl safonau er mwyn cael eu cymeradwyo i gyflwyno unrhyw raglen a gymeradwywyd gan yr NMC.




DRAFT FOR CONSULTATION

Mae darparwyr addysg yn strwythuro eu rhaglenni addysg i gydymffurfio â'n safonau rhaglenni. Maent hefyd yn llunio eu cwricwla yn seiliedig ar y safonau hyfedredd a gyhoeddwyd ar gyfer rhaglen benodol. Asesir myfyrwyr yn erbyn safonau hyfedredd cyhoeddedig er mwyn sicrhau eu bod yn gallu darparu gofal diogel ac effeithiol. Safonau hyfedredd yw'r wybodaeth, y ddealltwriaeth, y sgiliau a'r ymddygiad sydd eu hangen i ymarfer.

Drwy ein prosesau sicrhau ansawdd, rydym yn sicrhau bod rhaglenni addysg yn cyrraedd ein holl safonau o ran strwythur rhaglenni addysgol a'r broses o'u cyflwyno, bod deilliannau rhaglenni yn gysylltiedig â'r safonau hyfedredd sy'n ddisgwyliedig ar gyfer cymwysterau penodol a bod y sefydliadau addysg cymeradwy (SACau) a phartneriaid dysgu ymarfer yn rheoli risgiau yn effeithiol. Gan ddefnyddio gwybodaeth fewnol ac allanol, rydym yn monitro risgiau posibl a gwirioneddol i ansawdd mewn addysg a hyfforddiant. Mae'r broses hon o gasglu gwybodaeth yn cynnwys dadansoddi adroddiadau rheoleiddwyr systemau.

Yn unol â'n *Fframwaith* sicrhau ansawdd, cyn y gellir cyflwyno rhaglen bydwreigiaeth, cynhelir proses gymeradwyo lle byddwn yn sicrhau bod y rhaglen arfaethedig yn cyrraedd ein safonau.

DRAFT FOR CONSULTATION

# Fframwaith deddfwriaethol

Mae Erthygl 15(1) o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 ('y Gorchymyn')[1][1] yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor sefydlu safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant sy'n angenrheidiol er mwyn cyrraedd safon hyfedredd ar gyfer ymuno â'r gofrestr, fel sy'n ofynnol gan Erthygl 5(2) o'r Gorchymyn. Caiff y safonau ar gyfer rhaglenni bydwreigiaeth cyn cofrestru eu sefydlu yn unol â darpariaeth Erthygl 15(1) o'r Gorchymyn.

# Safonau ar gyfer rhaglenni bydwreigiaeth cyn cofrestru

Mae SACau a'u partneriaid dysgu ymarfer yn gyfrifol ac yn atebol am ddatblygu, cyflwyno a rheoli cwricwla rhaglenni bydwreigiaeth cyn cofrestru. Gall rhaglenni bydwreigiaeth cyn cofrestru gynnig amrywiaeth o lwybrau cofrestru.

Mae'r *Fframwaith safonau ar gyfer addysg nyrsio a bydwreigiaeth*, y *Safonau ar gyfer goruchwylio ac asesu myfyrwy* a'r *Safonau ar gyfer rhaglenni bydwreigiaeth cyn cofrestru* yn darparu fframwaith rheoleiddio cyffredinol sy'n galluogi SACau a phartneriaid dysgu ymarfer i gynllunio rhaglenni sy'n bodloni ein gofynion gan ganiatáu hyblygrwydd lleol, arloesedd ac amrywioldeb o fewn cwricwla unigol ar yr un pryd.

Rhaid i gwricwla rhaglenni bydwreigiaeth gwmpasu'r deilliannau a nodir ym mharthau 1–5 a'u sgiliau cysylltiedig yn y *Safonau hyfedredd ar gyfer bydwragedd*. Rhaid i bob myfyriwr bydwreigiaeth gydymffurfio â'r safonau dysgu ac asesu angenrheidiol er mwyn paratoi ar gyfer ymarfer proffesiynol fel bydwraig. Rhaid i ddeilliannau dysgu rhaglenni gwmpasu'r cynnwys a'r cymwyseddau a nodir yn neddfwriaeth berthnasol yr UE. Bydd myfyrwyr bydwreigiaeth yn dysgu ac yn cael eu hasesu mewn amrywiaeth o amgylcheddau gan gynnwys y SAC, lleoliadau partneriaid dysgu ymarfer ac amgylcheddau efelychu ymarfer.

Credwn y bydd cynnwys menywod a theuluoedd yn y broses o gynllunio, datblygu a chyflwyno cwricwla yn magu hyder y cyhoedd yn yr addysg a roddir i fydwragedd y dyfodol. Felly, anogwn y defnydd o dystiolaeth ategol ac ymgysylltiad gan bobl y mae bydwragedd wedi gofalu amdanynt er mwyn llywio'r ffordd y caiff rhaglenni eu cynllunio a'u cyflwyno.

Ar ôl cwblhau rhaglen a gymeradwywyd gan yr NMC yn llwyddiannus, bydd myfyrwyr yn gymwys i wneud cais i gofrestru fel bydwraig.

[1] SI 2002/253



DRAFT FOR CONSULTATION

## Y fydwraig arweiniol ar gyfer addysg

Gofynnwn i SAC wneud y canlynol:

- penodi bydwraig arweiniol ar gyfer addysg (BAA)
- sicrhau bod y BAA sy'n gyfrifol am gyfarwyddo'r rhaglen addysg, neu'r fydwraig ddynodedig sy'n dirprwyo drosti, yn gallu darparu datganiadau ategol o iechyd a chymeriad ar gyfer myfyrwyr sydd wedi cwblhau rhaglen bydwreigiaeth cyn cofrestru neu raglen dychwelyd i ymarfer yn llwyddiannus
- rhoi gwybod i ni bod BAA wedi'i phenodi.

Dylai'r SAC roi gwybod i ni bod BAA wedi'i phenodi drwy lenwi'r ffurflen briodol sydd ar gael ar ein gwefan, www.nmc.org.uk[2]. Bydd y SAC yn cydweithio'n strategol â'r BAA ar faterion sy'n effeithio ar safonau'r NMC sy'n rheoli addysg bydwreigiaeth cyn cofrestru.

Mae gan y BAA yr holl wybodaeth a sgiliau sydd eu hangen i gynghori ar bob mater sy'n ymwneud â safonau ac ansawdd academaidd sy'n gysylltiedig ag addysg bydwreigiaeth cyn cofrestru. Bydd y BAA:

- yn atebol am ei llofnod ar y datganiad ategol o iechyd da a chymeriad da neu lofnod y fydwraig ddynodedig sy'n dirprwyo drosti
- yn meddu ar yr hawl i wrthod llofnodi unrhyw ddatganiad ategol o iechyd da a chymeriad da pan fo'r dystiolaeth sydd ar gael yn nodi ei bod yn bosibl nad yw'r myfyriwr yn bodloni'r gofynion o ran iechyd da a/neu gymeriad da ar gyfer ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol fel bydwraig[3].

[2] Mae gennym restr o bob BAA a enwir ar ein gwefan.

[3] Os na ellir rhoi sicrwydd i BAA ynglŷn ag iechyd da a chymeriad da myfyriwr, ni ddylai lofnodi datganiad yr NMC. Felly, ni ellir argymell y dylid derbyn y myfyriwr i ran y bydwragedd o'r gofrestr. Er mwyn gwneud y penderfyniad hwn, gall fod angen i'r BAA geisio cymorth pwyllgor addasrwydd i ymarfer y brifysgol ac ystyried ein canllawiau ar iechyd a chymeriad. Lle bo myfyriwr eisoes ar ran gyntaf y gofrestr fel nyrs oedolion, gall fod yn briodol rhoi gwybod i ni pam nad yw'r myfyriwr yn cael ei argymell i'w dderbyn ar y gofrestr.

DRAFT FOR CONSULTATION

## Taith y myfyriwr

Mae'r *Safonau ar gyfer rhaglenni addysg bydwreigiaeth cyn cofrestru* yn dilyn taith y myfyriwr a chânt eu grwpio o dan y pum pennawd canlynol:

1. **Dethol, derbyn a dilyniant**

   Safonau am addasrwydd ymgeisydd a'i gyfranogiad parhaus mewn rhaglen bydwreigiaeth cyn cofrestru

2. **Cwricwlwm**

   Safonau ar gyfer cynnwys, cyflwyno a gwerthuso'r rhaglen bydwreigiaeth cyn cofrestru

3. **Dysgu ymarfer**

   Safonau yn benodol ar gyfer dysgu cyn cofrestru i fydwragedd mewn lleoliadau ymarfer

4. **Goruchwylio ac asesu**

   Safonau ar gyfer prosesau goruchwylio ac asesu diogel ac effeithiol ar gyfer rhaglenni addysg bydwreigiaeth cyn cofrestru

5. **Cymhwyster i'w ddyfarnu**

   Safonau sy'n nodi'r dyfarniad a gwybodaeth am gofrestr yr NMC

DRAFT FOR CONSULTATION

# 1. Dethol, derbyn a dilyniant

1.1 Rhaid i SACau, ynghyd â phartneriaid dysgu ymarfer, gadarnhau bod myfyrwyr, wrth ymuno â'r rhaglen.

1.1.1 wedi cwblhau o leiaf 12 mlynedd o addysg gyffredinol gan sicrhau bod pawb sydd wedi ymuno â rhaglenni bydwreigiaeth cyn cofrestru yn cydymffurfio ag Erthygl 40 (2) o Gyfarwyddeb 2005/36/EC mewn perthynas â hyd addysg gyffredinol fel y'i hamlinellir yn Atodiad 1 i'r ddogfen hon.

1.1.2 yn addas i ymarfer fel bydwraig.

1.1.3 yn dangos gwerthoedd yn unol â'r Cod.

1.1.4 yn gallu dysgu ymddygiad yn unol â'r Cod.

1.1.5 yn gallu meithrin y sgiliau rhifedd sydd eu hangen i gyflawni deilliannau'r rhaglen.

1.1.6 yn gallu dangos eu bod yn rhugl yn Saesneg[4].

1.1.7 yn meddu ar y sgiliau llythrennedd i allu cyflawni deilliannau'r rhaglen.

1.1.8 yn meddu ar y sgiliau llythrennedd digidol a thechnolegol i allu cyflawni deilliannau'r rhaglen.

1.1.9 sicrhau bod iechyd a chymeriad myfyrwyr yn ddigonol i allu ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol wrth ymuno â'r rhaglen, drwy gydol y rhaglen ac wrth gyflwyno'r datganiad iechyd a chymeriad ategol yn unol â chanllawiau'r NMC ar wneud penderfyniad ynghylch iechyd a chymeriad. Mae hyn yn cynnwys asesiad iechyd galwedigaethol boddhaol a gwiriadau cofnodion troseddol.

1.1.10 sicrhau y caiff myfyrwyr eu hysbysu'n llawn am y gofyniad i ddatgan, ar unwaith, unrhyw rybuddion neu gollfarnau, cyhuddiadau sydd yn yr arfaeth neu benderfyniadau andwyol a wnaed gan reoleiddwyr eraill, cyrff proffesiynol a sefydliadau addysg, ac yr ymdrinnir ag unrhyw ddatganiadau yn brydlon, yn deg ac yn gyfreithlon.

1.2 Bydd y BAA neu'r fydwraig ddynodedig sy'n dirprwyo drosti yn darparu datganiadau ategol o iechyd a chymeriad ar gyfer myfyrwyr sydd wedi cwblhau rhaglen bydwreigiaeth cyn cofrestru yn llwyddiannus.

1.3 Caniateir i nyrsys sydd wedi cofrestru â'r NMC ymuno â rhaglen bydwreigiaeth cyn cofrestru fyrrach sy'n cydymffurfio ag Erthygl 40(1)(b) o Gyfarwyddeb 2005/36/EC yn Atodiad 1 i'r ddogfen hon.

[4] Gweler ein gofynion iaith Saesneg yn www.nmc.org.uk/registration/joining-the-register/english-language-requirements

DRAFT FOR CONSULTATION

1.4 Mae angen cymorth ar fyfyrwyr drwy gydol y rhaglen i feithrin eu gallu mewn rhifedd, llythrennedd a llythrennedd digidol a thechnolegol yn barhaus er mwyn cyflawni deilliannau'r rhaglen.

1.5 Os bydd ymyriad â'r rhaglen addysg bydwreigiaeth, rhaid i ddarparwyr y rhaglen sicrhau bod y wybodaeth a'r sgiliau sydd eisoes gan y myfyriwr yn dal i fod yn ddilys, gan ei alluogi i gyrraedd y safonau angenrheidiol i gwblhau'r rhaglen[5].

1.6 Cyfrifoldeb SACau yw penderfynu p'un a ddylent dderbyn cais i drosglwyddo ai peidio. Dim ond os bodlonir y meini prawf isod y gall myfyrwyr drosglwyddo eu rhaglen â chredyd ar gyfer dysgu blaenorol:

- maent yn trosglwyddo rhwng rhaglenni bydwreigiaeth cyn cofrestru a gymeradwyir gan yr NMC
- maent yn bodloni ein gofynion o ran iechyd da a chymeriad da ac mae'r BAA wedi cadarnhau hyn
- gellir mapio dysgu blaenorol y myfyriwr yn erbyn y rhaglen y mae am drosglwyddo iddi, gan ei alluogi i gyflawni'r holl ddeilliannau a chyrraedd yr holl safonau angenrheidiol ar ôl cwblhau'r rhaglen.

[5] At ddiben y safon hon, ystyr ymyriad yw unrhyw absenoldeb o raglen addysg ac eithrio gwyliau blynyddol, statudol neu gyhoeddus. Pan fydd myfyriwr yn dychwelyd i raglen argymhellir y dylai gael cyfnod ymgyfarwyddo sy'n addas i hyd yr ymyriad.

DRAFT FOR CONSULTATION

## 2. Cwricwlwm

**Rhaid i SACau, ynghyd â'u partneriaid dysgu ymarfer:**

2.1 sicrhau bod partneriaid dysgu ymarfer, menywod, teuluoedd a grwpiau eiriolaeth yn cael eu cynnwys yn y broses o gynllunio, datblygu, cyflwyno a gwerthuso rhaglen(ni) addysg bydwreigiaeth cyn cofrestru

2.2 sicrhau bod rhaglen(ni) bydwreigiaeth yn cydymffurfio â'r *Fframwaith safonau ar gyfer addysg nyrsio a bydwreigiaeth*, sy'n cynnwys penodi arholwr/arholwyr profiadol sy'n meddu ar y cymwysterau priodol ac sydd hefyd yn fydwraig

2.3 sicrhau bod rhaglenni bydwreigiaeth yn cydymffurfio â'r *Safonau ar gyfer goruchwylio ac asesu myfyrwyr*

2.4 sicrhau bod deilliannau dysgu rhaglenni bydwreigiaeth yn adlewyrchu'r *Safonau hyfedredd ar gyfer bydwragedd* a'r Cod

2.5 cynllunio a chyflwyno rhaglenni bydwreigiaeth sy'n cefnogi myfyrwyr ac yn cynnig cyfleoedd perthnasol a pharhaus i gael profiad o ymarfer bydwreigiaeth

2.6 nodi'r cynnwys cyffredinol a phroffesiynol sy'n angenrheidiol i gyrraedd y *Safonau hyfedredd ar gyfer bydwragedd* a deilliannau rhaglenni

2.7 sicrhau bod cyfleoedd dysgu sydd wedi'u cyfoethogi drwy dechnoleg ac sydd wedi'u hefelychu yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac yn gymesur er mwyn cefnogi'r dysgu a'r asesu; yn enwedig lle nad yw amgylchiadau clinigol yn codi'n aml ond lle mae angen hyfedredd er hynny

2.8 sicrhau bod y cwricwlwm bydwreigiaeth yn cydbwyso 50% o ddysgu ym maes theori (2,300 o oriau) a 50% o ddysgu drwy ymarfer (2,300 o oriau), gan ddefnyddio ystod o strategaethau dysgu ac addysgu

2.9 sicrhau bod rhaglenni a gyflwynir yng Nghymru yn cydymffurfio â deddfwriaeth sy'n cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg

2.10 sicrhau bod rhaglenni bydwreigiaeth cyn cofrestru sy'n arwain at gofrestru fel bydwraig yn adlewyrchu Atodiad 5, Pwynt 5.5.1 o Gyfarwyddeb 2005/36/E (gweler Atodiad 1 ac Erthygl 40 a 42)

2.11 sicrhau bod pob rhaglen bydwreigiaeth cyn cofrestru yn bodloni'r isafswm hyd rhaglen cyfatebol, sef tair blynedd, fel y nodir yn Erthygl 40(1) o Gyfarwyddeb 2005/36/E (gweler Atodiad 1). Dim ond pan fydd myfyriwr eisoes wedi'i gofrestru â'r NMC fel nyrs lefel 1 (oedolyn) y gellir byrhau'r rhaglen, a rhaid i'r rhaglen bara o leiaf 3000 o oriau (rhaglenni 18 mis) neu 3600 o oriau (rhaglenni dwy flynedd)

2.12 rhaid cwblhau a chyflawni pob un o ddeilliannau'r rhaglen, gan gynnwys safonau hyfedredd, cyn cwblhau'r rhaglen yn llwyddiannus.

DRAFT FOR CONSULTATION

# 3. Dysgu ymarfer

**Rhaid i SACau, ynghyd â'u partneriaid dysgu ymarfer:**

3.1 cynnig cyfleoedd dysgu ymarfer sy'n galluogi myfyrwyr bydwreigiaeth i ddatblygu a chyrraedd y *Safonau hyfedredd ar gyfer bydwragedd* er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol

3.2 sicrhau bod myfyrwyr yn cael profiad o'r amrywiaeth o ymarfer sy'n ddisgwyliedig gan fydwragedd er mwyn diwallu anghenion holistaidd menywod a'u teuluoedd

3.3 sicrhau bod myfyrwyr yn cael profiad o'r ystod o oriau y mae disgwyl i fydwragedd sy'n ymarfer eu gweithio, gan ystyried anghenion unigol ac amgylchiadau personol myfyrwyr wrth bennu eu cyfleoedd dysgu ymarferol gan gynnwys gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer myfyrwyr ag anableddau

3.4 sicrhau bod gan fyfyrwyr statws ychwanegol

3.5 sicrhau bod pob myfyriwr yn cael profiad o barhad o ran gofalwr ac yn dilyn nifer o fenywod drwy'r continwwm gofal

3.6 sicrhau bod myfyrwyr yn cael profiad o ofal bydwreigiaeth ar gyfer poblogaeth amrywiol mewn ystod o leoliadau gan gynnwys pan fydd cymhlethdodau ac anghenion gofal ychwanegol

3.7 sicrhau bod myfyrwyr yn cael cyfleoedd dysgu sy'n eu galluogi i ddysgu egwyddorion eang ffarmacoleg a'r wybodaeth a'r sgiliau rhifedd cysylltiedig sydd eu hangen er mwyn

a. gwerthu, cyflenwi a rhoi meddyginiaethau a enwir o dan yr eithriadau i fydwragedd a nodir yn Atodlen 17 i'r Rheoliadau Meddyginiaethau Dynol

b. symud ymlaen i sicrhau cymhwyster ym maes presgripsiynu annibynnol ar ôl cofrestru yn y lle cyntaf.

DRAFT FOR CONSULTATION

## 4. Goruchwylio ac asesu

**Rhaid i SACau, ynghyd â'u partneriaid dysgu ymarfer:**

4.1. sicrhau bod cymorth, goruchwyliaeth, dysgu ac asesiadau ar gyfer bydwragedd dan hyfforddiant yn cydymffurfio â'r *Safonau ar gyfer goruchwylio ac asesu myfyrwyr*

4.2. rhoi adborth adeiladol i fyfyrwyr drwy gydol y rhaglen er mwyn eu helpu i ddatblygu

4.3. drwy gydol y rhaglen, sicrhau bod myfyrwyr bydwreigiaeth yn cyrraedd y

4.4. *Safonau hyfedredd ar gyfer bydwragedd* a deilliannau rhaglenni

4.5. sicrhau bod pob rhaglen bydwreigiaeth yn cynnwys asesiad rhifedd sy'n gysylltiedig â safonau hyfedredd bydwreigiaeth a chyfrifo meddyginiaethau y mae'n rhaid ennill sgôr o 100% ynddo

4.6. asesu myfyrwyr bydwreigiaeth i gadarnhau eu hyfedredd wrth iddynt baratoi i ymarfer yn broffesiynol fel bydwraig

4.7. sicrhau y rhoddir yr un pwysoliad[6] wrth asesu theori ac ymarfer

4.8. sicrhau bod yr holl safonau hyfedredd yn cael eu cofnodi mewn cofnod parhaus o gyflawniad y mae'n rhaid iddo ddangos bod y safonau hyfedredd a'r sgiliau a nodir yn y *Safonau hyfedredd ar gyfer bydwragedd* yn cael eu cyflawni

4.9. sicrhau bod y wybodaeth a'r sgiliau ar gyfer bydwragedd a nodir yn erthygl 40(3) a'r gweithgareddau bydwraig a nodir yn Erthygl 42 o Gyfarwyddeb 2005/36/EC wedi cael eu cyflawni (gweler Atodiad 1).

[6] Ystyr pwysoliad yn y cyd-destun hwn yw y rhoddir yr un gwerth wrth asesu theori ac ymarfer.

DRAFT FOR CONSULTATION

## 5. Cymhwyster i'w ddyfarnu

**Rhaid i SACau, ynghyd â phartneriaid dysgu ymarfer, wneud y canlynol:**

5.1 sicrhau mai'r dyfarniad isaf ar gyfer rhaglen bydwreigiaeth cyn cofrestru yw gradd baglor

5.2 hysbysu bydwragedd dan hyfforddiant, yn ystod y rhaglen a chyn ei chwblhau, fod ganddynt bum mlynedd i gofrestru eu dyfarniad â'r NMC. Os bydd myfyriwr yn methu â chofrestru ei gymhwyster o fewn pum mlynedd, bydd yn rhaid iddo gael addysg a hyfforddiant ychwanegol neu gael y cyfryw brofiad a nodir yn ein safonau[7].

[7] www.nmc.org.uk/globalassets/sitedocuments/registration/registering-more-than-five-years-after- qualifying.pdf

DRAFT FOR CONSULTATION

# Atodiad 1

## Cyfarwyddeb 2005/36/EC Senedd Ewrop a'r cyngor ar gydnabod cymwysterau proffesiynol (fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb 2013/55/EU)

**Erthygl 40**

**Hyfforddi bydwragedd**

1. Bydd yr hyfforddiant a ddarperir i fydwragedd yn cynnwys cyfanswm o'r canlynol o leiaf:

   (a) hyfforddiant llawn amser penodol fel bydwraig sy'n cynnwys o leiaf dair blynedd o astudiaethau damcaniaethol ac ymarferol (llwybr I) sy'n cynnwys o leiaf y rhaglen a ddisgrifir yn Atodiad V, pwynt 5.5.1, neu

   (b) hyfforddiant llawn amser penodol fel bydwraig sy'n para 18 mis (llwybr II), sy'n cynnwys o leiaf y rhaglen astudio a ddisgrifir yn Atodiad V, pwynt 5.5.1, nad oedd yn destun hyfforddiant cyfatebol i nyrsys sy'n gyfrifol am ofal cyffredinol.

Bydd yr Aelod-wladwriaethau yn sicrhau bod sefydliadau sy'n darparu hyfforddiant bydwragedd yn gyfrifol am gydgysylltu theori ac ymarfer drwy gydol y rhaglen astudio.

Bydd gan y Comisiwn hawl i fabwysiadu deddfau wedi'u dirprwyo yn unol ag Erthygl 57c mewn perthynas â newid y rhestr a nodir ym mhwynt 5.5.1 o Atodiad V gyda'r nod o'i haddasu i ddatblygiadau gwyddonol a thechnegol.

Ni fydd y newidiadau y cyfeirir atynt yn y trydydd is-baragraff yn achosi newid i egwyddorion deddfwriaethol hanfodol sydd eisoes yn bodoli mewn Aelod-wladwriaethau mewn perthynas â strwythur proffesiynau o ran hyfforddiant ac amodau mynediad gan bersonau naturiol. Bydd newidiadau o'r fath yn parchu cyfrifoldeb yr Aelod-wladwriaethau am drefnu systemau addysg, fel y nodir yn Erthygl 165(1) TFEU.

2. Er mwyn cael eich derbyn i hyfforddi fel bydwraig bydd yn rhaid bodloni un o'r amodau canlynol:

   (a) cwblhau o leiaf 12 mlynedd o addysg ysgol gyffredinol neu feddu ar dystysgrif sy'n brawf o lwyddiant mewn arholiad, ar lefel gyfatebol, er mwyn cael eich derbyn i ysgol fydwreigiaeth ar gyfer llwybr I;

   (b) meddu ar dystiolaeth o gymwysterau ffurfiol fel nyrs sy'n gyfrifol am ofal cyffredinol y cyfeirir ati ym mhwynt 5.2.2 o Atodiad V ar gyfer llwybr II.

DRAFT FOR CONSULTATION

3. Bydd hyfforddiant i fod yn fydwraig yn rhoi sicrwydd bod gan y gweithiwr proffesiynol dan sylw y wybodaeth a'r sgiliau canlynol:

(a) gwybodaeth fanwl am y gwyddorau y mae gweithgareddau bydwragedd yn seiliedig arnynt, yn enwedig bydwreigiaeth, obstetreg a gynaecoleg;

(b) gwybodaeth ddigonol am foeseg y proffesiwn a'r ddeddfwriaeth berthnasol ynglŷn ag ymarfer y proffesiwn;

(c) gwybodaeth ddigonol am wybodaeth feddygol gyffredinol (gweithrediadau biolegol, anatomeg a ffisioleg) a ffarmacoleg ym maes obstetreg a'r baban newydd-anedig, a hefyd wybodaeth am y gydberthynas rhwng cyflwr iechyd ac amgylchedd ffisegol a chymdeithasol y bod dynol, a'i ymddygiad;

(d) profiad clinigol digonol a gafwyd mewn sefydliadau cymeradwy sy'n golygu y gall y fydwraig, yn annibynnol ac o dan ei chyfrifoldeb ei hun, i'r graddau sy'n angenrheidiol a heb gynnwys sefyllfaoedd patholegol, helpu'r fam i roi genedigaeth i'r baban ac ymdrin â'i chanlyniadau mewn sefydliadau cymeradwy, a goruchwylio'r cyfnod esgor a'r enedigaeth, gofal ôl-enedigol a dadebru babanod newydd-anedig wrth aros am ymarferwr meddygol;

(e) dealltwriaeth ddigonol o'r broses o hyfforddi personél iechyd a phrofiad o weithio gyda phersonél o'r fath.

DRAFT FOR CONSULTATION

**Erthygl 41**

**Gweithdrefnau ar gyfer cydnabod tystiolaeth o gymwysterau ffurfiol fel bydwraig**

1. Bydd y dystiolaeth o gymwysterau ffurfiol fel bydwraig y cyfeirir ati ym mhwynt 5.5.2 o Atodiad V yn destun proses cydnabod awtomatig yn unol ag Erthygl 21 i'r graddau bod y cymwysterau'n bodloni un o'r meini prawf canlynol:

   (a) hyfforddiant llawn amser o leiaf dair blynedd o hyd fel bydwraig, a all hefyd gael ei fynegi gyda'r credydau ECTS cyfatebol, gan gynnwys o leiaf 4,600 o oriau o hyfforddiant damcaniaethol ac ymarferol, gydag o leiaf draean o'r hyd gofynnol yn cynrychioli hyfforddiant clinigol;

   (b) hyfforddiant llawn amser o leiaf ddwy flynedd o hyd fel bydwraig, a all hefyd gael ei fynegi gyda'r credydau ECTS cyfatebol, gan gynnwys o leiaf 3,600 o oriau, yn amodol ar feddu ar dystiolaeth o gymwysterau ffurfiol fel nyrs sy'n gyfrifol am ofal cyffredinol y cyfeirir atynt ym mhwynt 5.2.2 o Atodiad V:

   (c) hyfforddiant llawn amser o leiaf 18 mis o hyd fel bydwraig, a all hefyd gael ei fynegi gyda'r credydau ECTS cyfatebol, gan gynnwys o leiaf 3,000 o oriau, yn amodol ar feddu ar dystiolaeth o gymwysterau ffurfiol fel nyrs sy'n gyfrifol am ofal cyffredinol y cyfeirir atynt ym mhwynt 5.2.2 o Atodiad V, ac yna flwyddyn o ymarfer proffesiynol y rhoddwyd tystysgrif amdano yn unol â pharagraff 2.

2. Dylai'r dystysgrif y cyfeirir ati ym mharagraff 1 gael ei rhoi gan yr awdurdodau cymwys yn yr Aelod-wladwriaeth gartref. Dylai ardystio bod y deiliad, ar ôl sicrhau tystiolaeth o gymwysterau ffurfiol fel bydwraig, wedi cyflawni holl weithgareddau bydwraig am gyfnod cyfatebol mewn ysbyty neu sefydliad gofal iechyd a gymeradwywyd at y diben hwnnw.

DRAFT FOR CONSULTATION

**Erthygl 42**

**Cyflawni gweithgareddau proffesiynol bydwraig**

1. Bydd darpariaethau'r adran hon yn gymwys i weithgareddau bydwragedd fel y'u diffinnir gan bob Aelod-wladwriaeth, heb effeithio ar baragraff 2, ac fe'u cyflawnir o dan y teitlau proffesiynol a nodir yn Atodiad V, pwynt 5.5.2.

2. Bydd yr Aelod-wladwriaethau yn sicrhau y gall bydwragedd gael mynediad at y gweithgareddau canlynol, o leiaf, a'u cyflawni:

   (a) darparu gwybodaeth a chyngor cadarn ar gynllunio teulu;

   (b) gwneud diagnosis o feichiogrwydd a monitro beichiogrwydd naturiol; cynnal yr archwiliadau sydd eu hangen er mwyn monitro datblygiad beichiogrwydd naturiol;

   (c) rhagnodi'r archwiliadau sydd eu hangen er mwyn gwneud diagnosis o feichiogrwydd sydd mewn perygl cyn gynted â phosibl neu roi cyngor ar archwiliadau o'r fath;

   (d) darparu rhaglenni ar gyfer paratoi i fod yn rhiant a chwblhau'r paratoadau ar gyfer rhoi genedigaeth gan gynnwys cyngor ar hylendid a maeth;

   (e) gofalu am y fam yn ystod y cyfnod esgor a'i chynorthwyo a monitro cyflwr y ffetws yn y groth gan ddefnyddio'r dulliau clinigol a thechnegol priodol;

   (f) helpu merched i roi genedigaeth yn naturiol gan gynnwys, lle y bo angen, episiotomïau ac mewn achosion brys genedigaethau o chwith;

   (g) adnabod arwyddion rhybudd o annormaledd yn y fam neu'r baban sy'n golygu bod angen ei hatgyfeirio at feddyg neu gynorthwyo'r olaf lle y bo'n briodol; cymryd y camau brys angenrheidiol yn absenoldeb y meddyg, yn enwedig tynnu'r brych â llaw, ac wedyn, o bosibl, archwilio'r wterws â llaw;

   (h) archwilio'r babi newydd-anedig a gofalu amdano; cymryd pob cam angenrheidiol rhag ofn y bydd angen a dadebru babanod ar unwaith lle y bo angen;

   (i) gofalu am y fam a monitro ei chyflwr yn y cyfnod ôl-enedigol a rhoi'r holl gyngor angenrheidiol i'r fam ar ofalu am y baban er mwyn ei galluogi i sicrhau bod y baban newydd-anedig yn gwneud y cynnydd gorau posibl;

   (j) rhoi triniaeth a ragnodir gan feddygon;

   (k) llunio'r adroddiadau ysgrifenedig angenrheidiol.

DRAFT FOR CONSULTATION

# V.5. BYDWRAIG

### 5.5.1. Rhaglen hyfforddi ar gyfer bydwragedd (Mathau hyfforddiant I a II)

Mae'r rhaglen hyfforddi ar gyfer sicrhau tystiolaeth o gymwysterau ffurfiol ym maes bydwragedd yn cynnwys dwy ran:

A. Hyfforddiant damcaniaethol a thechnegol

   a. Pynciau cyffredinol

      - Anatomeg a ffisioleg sylfaenol
      - Patholeg sylfaenol
      - Bacterioleg, feiroleg a pharasitoleg sylfaenol
      - Bioffiseg, biocemeg a radioleg sylfaenol
      - Pediatreg, gan gyfeirio'n benodol at fabanod newydd-anedig
      - Hylendid, addysg iechyd, meddygaeth ataliol, diagnosis cynnar o glefydau
      - Maeth a deieteg, gan gyfeirio'n benodol at fenywod, babanod newydd-anedig a babanod ifanc
      - Cwestiynau cymdeithaseg a chymdeithasol-feddygol sylfaenol
      - Ffarmacoleg sylfaenol
      - Seicoleg
      - Egwyddorion a dulliau addysgu
      - Deddfwriaeth iechyd a chymdeithasol a threfniadaeth iechyd
      - Moeseg broffesiynol a deddfwriaeth broffesiynol
      - Addysg rhyw a chynllunio teulu
      - Diogelwch cyfreithiol y fam a'r babi

DRAFT FOR CONSULTATION

b. Pynciau sy'n ymwneud yn benodol â gweithgareddau bydwragedd

- Anatomeg a ffisioleg
- Embryoleg a datblygiad y ffetws
- Beichiogrwydd, geni plentyn a'r cyfnod ôl-esgor
- Patholeg gynaecolegol ac obstetregol
- Paratoi ar gyfer geni plentyn a bod yn rhiant, gan gynnwys agweddau seicolegol
- Paratoi ar gyfer esgor (gan gynnwys gwybodaeth am gyfarpar technegol ym maes obstetreg a'i ddefnyddio)
- Analgesia, anesthesia a dadebru
- Ffisioleg a phatholeg y babi newydd-anedig
- Gofalu am y babi newydd-anedig a'i oruchwylio
- Ffactorau seicolegol a chymdeithasol

B. Hyfforddiant ymarferol a chlinigol

- Caiff yr hyfforddiant hwn ei roi o dan oruchwyliaeth briodol:
- Rhoi cyngor i fenywod beichiog, gan gynnwys o leiaf 100 o archwiliadau cynenedigol.
- Goruchwylio o leiaf 40 o fenywod beichiog a gofalu amdanynt.
- Y myfyriwr i gyflawni o leiaf 40 o esgoriadau; lle na ellir cyrraedd y nifer hon am nad oes digon o fenywod ar gael sy'n esgor ar fabanod, gellir ei lleihau i isafswm o 30, ar yr amod bod y myfyriwr yn helpu gyda 20 esgoriad arall.
- Cymryd rhan mewn genedigaethau o chwith. Lle nad oes modd gwneud hyn oherwydd diffyg genedigaethau o chwith, gall yr ymarfer fod mewn sefyllfa wedi'i hefelychu.
- Cyflawni episiotomi a chyflwyniad i bwytho. Dylai'r cyflwyniad gynnwys hyfforddiant damcaniaethol ac ymarfer clinigol. Mae'r arfer o bwytho yn cynnwys pwytho'r clwyf yn dilyn episiotomi a rhwygiad syml yn y perinëwm. Gall hyn fod mewn sefyllfa wedi'i hefelychu os bydd gwir angen.
- Goruchwylio 40 o fenywod sy'n wynebu risg yn ystod beichiogrwydd, y cyfnod esgor neu'r cyfnod ôl-enedigol, a gofalu amdanynt.
- Goruchwylio o leiaf 100 o fenywod ôl-enedigol a babanod newydd-anedig iach a gofalu amdanynt (gan gynnwys archwiliadau).

DRAFT FOR CONSULTATION

- Arsylwi ar fabanod y mae angen gofal arbennig arnynt, gan gynnwys y rhai a gafodd eu geni'n gynamserol, yn hwyr, o dan bwysau neu'n sâl.
- Gofalu am fenywod â chyflyrau patholegol ym meysydd gynaecoleg ac obstetreg.
- Cyflwyniad i ofal ym maes meddygaeth a llawfeddygaeth. Dylai'r cyflwyniad gynnwys hyfforddiant damcaniaethol ac ymarfer clinigol.

Dylai'r hyfforddiant damcaniaethol a thechnegol (Rhan A o'r rhaglen hyfforddi) gael ei gydbwyso a'i gydlynu â'r hyfforddiant clinigol (Rhan B o'r un rhaglen) yn y fath fodd fel y gall y wybodaeth a'r profiad a restrir yn yr Atodiad hwn gael eu meithrin yn ddigonol.

Dylai'r hyfforddiant clinigol for ar ffurf hyfforddiant mewn gwasanaeth o dan oruchwyliaeth mewn adrannau ysbyty neu wasanaethau iechyd eraill a gymeradwywyd gan yr awdurdodau neu'r cyrff cymwys. Fel rhan o'r hyfforddiant hwn, dylai bydwragedd dan hyfforddiant gymryd rhan yng ngweithgareddau'r adrannau dan sylw i'r graddau bod y gweithgareddau hynny yn cyfrannu at eu hyfforddiant. Dylent gael eu haddysgu am y cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau bydwragedd.

DRAFT FOR CONSULTATION

# Rhestr Termau

**Addasiadau rhesymol:** lle mae angen gwneud addasiad rhesymol sy'n gysylltiedig ag anabledd ar gyfer myfyriwr. Rydym hefyd yn ei ddefnyddio i olygu addasiad sy'n ymwneud ag unrhyw nodweddion gwarchodedig fel y'u nodir mewn deddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol.

**Addysgwyr:** yng nghyd-destun Safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant yr NMC, mae addysgwyr yn darparu, yn cefnogi, yn goruchwylio a/neu'n asesu dysgu ym maes theori, wrth ymarfer a/neu yn y gwaith.

**Deddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol:** mae'n gwahardd gwahaniaethu anghyfreithlon ar sail oedran, anabledd, statws ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol a nodweddion eraill. Gall cyfreithiau gwrth-wahaniaethu fod yn wlad-benodol a cheir camau gwarchodol rhyngwladol sy'n gyfreithiol-rwymol.

**Efelychu:** cynrychiolaeth artiffisial o senario ymarfer byd go iawn sy'n cefnogi datblygiad myfyrwyr bydwreigiaeth drwy ddysgu drwy brofiad gyda'r cyfle am ailadrodd, adborth, gwerthuso a myfyrio. Mae efelychu effeithiol yn hwyluso diogelwch drwy wella dealltwriaeth, ymddygiad a sgiliau.

**Gofynion iechyd a chymeriad:** fel y nodir yn neddfwriaeth yr NMC (Erthyglau 9(2)(b) a 5(2)(b) o'r Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001), mae 'iechyd da' yn golygu y gall yr ymgeisydd ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol naill ai gyda neu heb addasiadau rhesymol. Nid yw'n golygu nad oes ganddo gyflwr iechyd neu anabledd. Bydd yn ofynnol i unrhyw ymgeisydd sydd am gael ei aildderbyn ar y gofrestr neu sydd am adnewyddu ei gofrestriad, p'un a yw wedi cael ei gofrestru o'r blaen ai peidio, ddatgan unrhyw gyhuddiadau sydd yn yr arfaeth, collfarnau, rhybuddion gan yr heddlu a phenderfyniadau a wnaed gan gyrff rheoleiddio eraill.

**Myfyriwr bydwreigiaeth:** unrhyw unigolyn sy'n cofrestru ar gyfer rhaglen addysg a gymeradwywyd gan yr NMC, p'un a yw hynny'n llawn amser neu'n llai na llawn amser.

**Partneriaid dysgu ymarfer:** sefydliadau sy'n darparu dysgu ymarfer sy'n angenrheidiol ar gyfer cynorthwyo myfyrwyr ar lefel cyn cofrestru neu ôl-gofrestru i gyrraedd safonau hyfedredd a deilliannau rhaglenni.

**Rhanddeiliaid:** unrhyw unigolyn, grŵp neu sefydliad sydd â diddordeb neu fudd yn y sefyllfa dan sylw, a all effeithio ar weithrediadau, amcanion neu bolisïau'r sefyllfa honno, neu y gallai'r gweithrediadau, amcanion neu'r polisïau hynny effeithio arno. Yng nghyd-destun Safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant yr NMC, mae hyn yn cynnwys myfyrwyr, addysgwyr, sefydliadau partner, defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr, cyflogwyr, gweithwyr proffesiynol eraill, rheoleiddwyr eraill a chomisiynwyr addysg.


DRAFT FOR CONSULTATION

**Sefydliadau addysg cymeradwy (SACau):** dyma'r statws a ddyfernir gan yr NMC i sefydliad, neu ran o sefydliad, neu gyfuniad o sefydliadau sy'n gweithio mewn partneriaeth â lleoliadau ymarfer a darparwyr dysgu seiliedig ar waith. Bydd SACau wedi rhoi sicrwydd i ni eu bod yn gyfrifol am gyflwyno rhaglenni addysg a gymeradwywyd gan yr NMC a'u bod yn gallu gwneud hynny.

**Sicrhau ansawdd:** prosesau'r NMC ar gyfer sicrhau bod yr holl SACau a'u rhaglenni addysg cymeradwy yn cydymffurfio â'n safonau.

**Statws ychwanegol:** Rhaid i fyfyrwyr sy'n dysgu wrth ymarfer neu sy'n dysgu yn y gwaith gael eu cefnogi i ddysgu, heb gael eu cyfrif wrth ystyried faint o staff sydd eu hangen i roi gof al diogel ac effeithiol yn y lleoliad hwnnw. Dylai lleoliadau alluogi myfyrwyr i ddysgu a darparu gofal diogel ac effeithiol, ac nid arsylwi yn unig; gall myfyrwyr ychwanegu gwerth gwirioneddol at ofal, a dylent wneud hynny. Bydd y cyfraniad a wneir gan fyfyrwyr yn cynyddu dros amser wrth iddynt feithrin hyfedredd a byddant yn parhau i gael budd o arweiniad ac adborth parhaus. Pan fydd myfyriwr wedi dangos ei fod yn hyfedr, dylai allu cyflawni tasgau heb oruchwyliaeth uniongyrchol. Mae'r lefel o oruchwyliaeth sydd ei hangen ar fyfyriwr yn seiliedig ar farn broffesiynol ei oruchwylwyr, gan ystyried unrhyw risgiau cysylltiedig a gwybodaeth, hyfedredd a hyder y myfyriwr.

DRAFT FOR CONSULTATION



## Rôl y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

**Yr hyn a wnawn**

Ni yw’r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio. Mae gennym gofrestr sy’n cynnwys pob un o’r 690,000 o nyrsys a bydwragedd a all ymarfer yn y DU a chymdeithion nyrsio a all ymarfer yn Lloegr.

Mae gofal gwell a mwy diogel i bobl wrth wraidd yr hyn a wnawn, gan helpu’r gweithwyr iechyd proffesiynol ar ein cofrestr i ddarparu gofal o’r safon uchaf.

Rydym yn sicrhau bod gan nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio y sgiliau sydd eu hangen arnynt i ofalu am bobl yn ddiogel, ag urddas, arbenigedd, parch a thrugaredd, o’r eiliad y byddant yn camu i mewn i’w swydd gyntaf.

Ni fydd nyrsys, bydwragedd na chymdeithion nyrsio yn rhoi’r gorau i ddysgu ar y diwrnod y byddant yn cymhwyso. Er mwyn hybu diogelwch ac ymddiriedaeth y cyhoedd, rydym yn ei gwneud yn ofynnol i weithwyr proffesiynol ddangos drwy gydol eu gyrfaoedd eu bod yn ymrwymo i ddysgu a datblygu er mwyn sicrhau bod eu sgiliau’n gyfredol a’u bod yn gwella fel ymarferwyr.

Rydym am annog proffesiynau gofal iechyd i fod yn agored a dysgu er mwyn gwella gofal a chadw’r cyhoedd yn ddiogel. Ar yr achlysuron pan fydd rhywbeth yn mynd o’i le ac y bydd pobl yn wynebu risg, gallwn gamu i mewn i ymchwilio i’r mater a chymryd camau gweithredu, gan roi llais i’r cleifion a’r teuluoedd yn y broses.

**Cafodd y safonau hyn eu cymeradwyo gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar (DATE TBC).**